Sut y gallai agor mynediad i farchnadoedd ynni lleol helpu eich ardal

Manteision marchnadoedd ynni lleol

Mae marchnad ynni leol yn drefniant sy'n caniatáu ar gyfer masnachu rhwng cynhyrchwyr trydan lleol a phobl leol.

Mae'n darparu mecanwaith iddynt gytuno ar bris ar gyfer ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol, er budd y ddau.

Gellir defnyddio hyn hefyd i gymell defnydd mwy hyblyg ac effeithlon o rwydweithiau lleol, gan ryddhau capasiti ar gyfer mwy o ynni glân.

Heb well hyblygrwydd grid, bydd Cynllun Pŵer Lleol 8GW llywodraeth y DU yn cael ei rwystro'n ddifrifol gan gapasiti cysylltu annigonol.

Mae 'marchnadoedd ynni lleol' yn darparu'r manteision posibl a ganlyn:

- Biliau is i gartrefi a busnesau lleol
- Mwy o gymhelliant i fabwysiadu mesuryddion clyfar yn y cartref
- Gwell hyfywedd ariannol ar gyfer mwy o gynhyrchu adnewyddadwy ar raddfa fach
- Creu mecanwaith ar gyfer symud y galw i ffwrdd o amseroedd brig a gwell 'cydbwyso', sy'n golygu bod cynhyrchiant a galw lleol yn cyfateb mewn amser real. Mae hyn yn helpu i reoli capasiti rhwydwaith cyfyngedig.

Pa gamau y gall Llywodraeth y DU eu cymryd

Gall Llywodraeth y DU alluogi mwy o farchnadoedd ynni lleol drwy:

- **cefnogi addasiad P441 (gweler isod) a rhoi cyfeiriad i Ofgem gefnogi marchnadoedd ynni lleol.**
- **yn y dyfodol, gorfodi cyfranogiad cyflenwyr trwyddedig mewn marchnadoedd ynni lleol.**

Esboniadau allweddol

Sut mae marchnadoedd ynni lleol yn gweithio

Rhaid cysylltu holl aelodau'r trefniant o dan yr un is-orsaf gynradd, ac, o dan y rheolau presennol, ar yr un foltedd. Mae angen cyflenwr trwyddedig i ddarparu trydan a biliau ychwanegol.

Mae'n bosibl creu marchnadoedd ynni lleol o dan y rheoliadau presennol, ond bydd **addasiad P441** (gweler isod) yn ei gwneud yn llawer haws i fwy o gymunedau elwa.

Y darlun ehangach

Nid oes digon o amser i uwchraddio seilwaith trydan yn ddigonol i alluogi'r ynni adnewyddadwy sydd ei angen ar y wlad i ddatgarboneiddio erbyn 2030. Ni fydd uwchraddio ar raddfa fawr, megis peilonau, yn darparu digon o gapasiti rhwydwaith ar eu pen eu hunain. Byddai ehangu marchnadoedd ynni lleol yn sicrhau gwell rheolaeth ar y grid lleol ar raddfa amser fyrrach.

P441 addasiad i'r Cod Cydbwyso a Setlo

Mae addasiad P441 yn cael ei ystyried gan weithgor ar gyfer Elexon, sy'n goruchwylio trefniadau masnachu trydan ac sy'n cael ei reoleiddio gan Ofgem.

Mae P441 wedi bod yn cael ei datblygu ers dwy flynedd a byddai'n rhoi cysyniad o farchnadoedd ynni lleol, a elwir hefyd yn safleoedd cymhleth, ar sylfaen reoleiddiol fwy cadarn. Byddai hefyd yn symleiddio'r broses o sefydlu marchnad ynni leol ac yn galluogi cynhyrchwyr lleol sydd wedi'u cysylltu ar foltedd gwahanol i'r defnyddwyr i ddod i mewn i'r trefniadau hyn. Byddai hyn yn caniatáu i fwy o gymunedau elwa.

Byddai P441 hefyd yn rhoi sicrwydd rheoleiddiol i gyflenwyr trwyddedig fel eu bod yn fwy hyderus ynghylch buddsoddi i ddarparu gwasanaethau i alluogi ynni lleol.

Beth yw rôl cwmnïau cyflenwi?

Mae angen cyflenwyr trwyddedig fel rhan o drefniadau marchnad ynni leol i ddarparu trydan ychwanegol (ar ben yr hyn a gynhyrchir yn lleol) a biliau.

Gallant hefyd elwa oherwydd gall trefniadau sy'n symud y galw am drydan i ffwrdd o amseroedd brig leihau'r risg a'r costau o ddiffyg cyflenwad a galw am drydan. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd angen deddfwriaeth wedyn i fandadu cyfranogiad cyflenwyr.

Enghraifft o farchnadoedd ynni lleol

Mae'r fenter gymdeithasol Ynni Lleol yn cefnogi datblygiad Clybiau Ynni Lleol, sy'n fath o farchnad ynni leol. Mae'r rhain wedi cynnwys un clwb trefol a chymunedau gwledig lluosog - mae'r cysylltiadau'n rhoi mwy o fanylion.

Sefydlir y clybiau hyn fel cwmni cydweithredol, gyda chynhyrchwyr adnewyddadwy a chartrefi a/neu fusnesau lleol yn aelodau.

Mae papur briffio esboniadol manylach ar gael ar gais.